

# Newyddion Capel Y Waen

Rhif 22 Haf 2015

**Capel Annibynwyr Waengoleugoed  
Waen,  
Llanelwy LL17 0DY**

*Eglwys fechan bywiog a gweithgar sydd yn gwrando ar lais Duw ac yn ceisio bod yn ganolbwynt daoini a gweithredu yn gariadus o fewn ein cymuned. I weld rhagor o newyddion / trefn oedfa ayb ewch i'n Gwefan - [www.capelywaen.btck.co.uk](http://www.capelywaen.btck.co.uk) / dilynwch ni ar Facebook "Capel y Waen".*

*Cysylltwch a ni trwy'r wefan neu trwy'r post i'r cyfeiriad uchod*

## Darlith "Byw gyda Dementia" Beti George

Eleni oedd y pedwerydd Darlith flynyddol ini gynnal yn y Capel a braf oedd croesawu'r newyddiadurwraig adnabyddus Beti George I roi y ddarlith. Mae Beti George yn enwog led-led Cymru ac yn lais gyfarwydd ini gyd ar y teledu ac ar y radio a gyda dawn arbennig o gyfleu materion anodd mewn ffordd ddiddorol ac effeithiol. Dim rhyfedd felly fod y Capel yn llawn ar gyfer y ddarlith a pobl wedi teithio o Ddolgellau, Bala, LLeyn a Sir Fon I wrando ar Beti George yn sgwrsio am bwnc y mae nid yn unig wedi gwneud llawer o ymchwil a rhaglenni arno, ond sydd hefyd yn bwnc sydd yn effeithio arni pob dydd—sef Byw Gyda Dementia. Ers sawl blwyddyn bellach mae David Parry Jones, cymar Beti yn dioddef o Ddementia ac er gwaethaf ei salwch a'r effaith y mae y salwch yn eu gael arno, mae Beti yn sicrhau fod David yn cael "byw" yn wir ystyr y gair ac mae hyn yn golygu llawer o aberth ac o ymdrech iddi. Soniodd Beti yn y noson am y cyflwr yn gyffredinol ac yn arbennig am sut mae yn effeithio ar David—David ei hyn yn gyn newyddiadurwr ac yn wr talentog. Soniodd am bwysigrwydd cyswllt gyda theulu a ffrinidau a fel

pan mae rhai yn dod I'w weld sydd yn gallu siarad am Criced er engrhaifft, mae David yn gallu cysylltu a chymeryd rhan yn y sgwrs ac yn mwynhau y cwmni, er ei fod yn cael trafferth gwybod ar adegau pwy yw'r ymwelydd. Soniodd fel fod gorchwylion dyddiol yn anodd a sut mae yn ceisio ymdopi a'u helpu heb iddo deimlo ei fod yn hollol ddibynol arni. Soniodd hefyd am y diffygion mawr mewn darpariaeth gofal a pha mor anodd mae iddi gael unrhyw Ofal allanol I fewn I'r ty oherwydd diffyg cysondeb a diffyg parch ar adegau gan rhai o'r asiantaethau. Soniodd am broblemau gyda Chynghorau Sir a'u diffyg cydymdeimlad I'r salwch a'r problem I gael barthodyn anabl er engrhaifft a fydd yn gwneud gymaint o wahaniaeth I fywyd David. Cadeirydd y noson oedd Dafydd Iwan a llwyddodd Dafydd I agor y drafodaeth I bawb ar ddiwedd y noson. Mae rhannu profiadau yn anodd ond teimlodd amryw yn ddigon dewr I rannu eu profiadau a brawychus oedd clywed am profiadau yn enwedig ble nad oedd dim ymwybyddiaeth o bwysigrwydd Gofal yn yr iaith Gymraeg. Rhoddwyd y diolchiadau gan Karen Owen a chafodd pawb paned a chacen wedi eu baratoi gan Mona, Mair, Llinos, Wendy, Glenys a Margaret—llawer o ddiolch iddynt ac I Dafydd, Gareth a Richard am ofalu am y parcio a oedd yn dasg anoddach nag arfer gan fod cyfarfod prysur arall ymlaen yn y Waen ar yr un noson! Mae Darlith y Grawys yn gyfle I chael ystyried a thrafod materion pwysig sydd yn effeithio arnom a'n gymdeithas a hefyd yn gyfle ini fel Eglwys I ymestyn allan I'n cymuned a dangos ein bod yn ceisio sefyll ochr yn ochr yn ymarferol gyda rhai sydd yn cael eu heffithio gan y clefyd Dementia.



# Ychydig o'n Hanes

## Bore Sul y Pasg

Chwasom oedfa hyfryd Bore Sul y Pasg yng nghapel y Waen a braf un-waith eto croesawu ein teuluoedd ifainc atom. Chawsom ddarlleniadau gan Arwyn Roberts ac Elen Roberts a gweddiau gan Helen Bebb. Wedyn bu l bawb oedd yn bresennol tynnu llun o'l law ar bapur a'u dorri allan a rhoi ar y groes—roedd hyn l ddangos fod Iesu wedi marw drost bawb a'n bod l gyd yn blant l Dduw. Mae y groes yn y Capel gyda'r dwylo arno a llawer wedi son pa mor drawiadol ydio. Aeth pawb allan wedyn l ardd y Capel ar gyfer yr helfa wyau Pasg a chael llawer o hwyl fel arfer. Diolch l bawb a gymerodd rhan ac yn enwedig l Elen a ddarllenodd mor dda a hyderus er yn 8 oed, ac l Elen Mair am drefnu y helfa wyau pasg ini.

## Dathlu 200 Capel y Waen 1815-2015

Eleni rydym yn dathlu 200 mlynedd ers sefyldu yr Achos Annibynwyr yn y Waen ac yn diolch l Dduw am yr achos a'r hyn y mae wedi eu gyflawni a hefyd yn edrych ymlaen i'r dyfodol. Rydym yn cyhoeddi llyfr sydd yn cronicle'r hanes ond hefyd yn son am heddiw ac am y dyfodol ac mae nifer fawr o gyfraniadau wedi dod i law sydd yn son am bob agwedd o fywyd y Capel. Rydym yn cyhoeddi y llyfr yn yr Hydref a bydd pob elw yn mynd i gynnal Gofal Dydd. Rydym yn gobeithio bydd y llyfr yn cael eu brynnu fel anrheg Nadolig a byddem yn ddiolchgar iawn o unrwy gymorth gan rai a fydd yn gallu helpu gyda'r gwerthiant ac i dderbyn archebion am y llyfr.

## Llongyfarchiadau Mrs Mary Owen yn 101 oed !

Roedd yn hyfryd ini gael dathlu gyda Mrs Mary Owen ar ei phenblwydd yn 101 yn nghanol mis Mawrth. Roedd wedi bod am ychydig o ddyddiau o wyliau ym Mhortmeirion gyda'r teulu l ddathlu yr achlysur a mwynhau yn fawr. Mae yn berson mor llawen ac rydym wedi mwynhau ei chwmni ers yr ail wythnos wedi l Ofal Dydd gychwyn 4 mlynedd yn ol.. Chafwyd chacen a chanwyllau yng Ngofal Dydd l ddathlu ei diwrnod arbennig

## Diolch am Roddion

Rydym yn ddiolchgar l Gymanfa Bedyddwyr Dinbych, Flint a Meirion am eu rhodd o £200 er budd Ofal dydd ; l chwiorydd y henaduriaeth am ei rhodd o £100 ac l Glwb Penstryd am y rhodd o £78 wedi l'r clwb ddod l ben yn ddiweddar wedi nifer o flynyddoedd. Dim ond trwy roddion hael fel hyn yr ydym yn gallu cynnal Gofal Dydd a sicrhau dyfodol l gwasanaeth Ofal Dydd sydd yn golygu gymaint l'r rhai sydd yn dod atom yn wythnosol ac yn rhoi seibiant rheolaidd l'w gofawyr.

**G**WAITH ELUSEN  
**CAPEL Y WAEN**  
YNGHYD A CHAS-  
GLIADAU ARBENNIG

RYDYM YN CYNNAL FFAIR  
FLYNYDDOL. YN 2014 DERBYN-  
WYD £3,925.25 A RYDYM WEDI  
HELPU HOSBIS ST CYNDEYRN,  
CYMORTH CRSITNOGOL A GOFAL  
DYDD. RYDYM YN RHOI CYMORTH  
YMARFEROL TRWY BRYNNU OFFER  
I RHAI SYDD YN Wael. COFIWCH  
CEFNOGI EIN SIOP NEWYDD SYDD  
YN GWERTHU NWYDDAU,  
CHARDIAU AC ANRHEGION A CHEF-  
NOGWCH Y GRONFA YMA  
**OUR OUTREACH WORK**  
IN 2014 WE RECEIVED £3,925.25  
FROM THE FAIR AND SPECIAL COL-  
LECTIONS. YOU CAN HELP SUP-  
PORT OUR VITAL WORK AND ESPE-  
CIALLY FUNDING OUR WEEKLY DAY  
CARE BY DONATIONS, SUPPORTING  
OUR SHOP AND DONATING GIFTS  
AND OTHER ITEMS TO SELL.

### Myfrdod y Mis

"Beth bynnag  
yr ydych yn ei  
wneud, ar air  
neu ar  
weithred,  
gwnewch  
bopeth yn enw  
yr Arglwydd  
Iesu, gan roi  
diolch i Dduw,  
y Tad, drwyddo  
ef."

*Colosiaid 3, ad17*

**Dymuniadau Da** l Di George sydd heb fod yn dda yn ddiweddar ac l Ffion Lloyd-Jameson sydd wedi torri ei braich - rydym yn gobeithio bydd y ddwy yn gwella yn fuan iawn ac yn gallu ailgydio yn eu bywydau prysur cyn bo hir.

**Cofiwn ar ein Rhestr Weddi** am Mr Meirion Jones Rhewl yng Nghartref Plas Eleri a Mrs Menna Owen yng Nghartref yr Hen Ddeondy ac am Mr John Gwilliam yng Nghartref High Pastures Deganwy. Rydym wedi cofio ac yn cofio am bob un o'r bobl yma yn ein gweddiau personol a fel chynnylleidfa o Sul I Sul yng Nghapel Waengoleugoed.

**Gofal Dydd** — Mae bwlch enfawr a thristwch yng Ngofal Dydd wedi ini golli Glenys Jones o'n plith—bu Glenys mor ffyddlon fel gwirfoddolydd yng Ngofal Dydd a bob amser gyda gwen charedig—rydym yn cydymdeimlo gyda Nan, Llinos, Eirian a Mair a'u teuluoedd yn eu colled mawr (Tud 4). Rydym wedi croesawu Donna, Arfon Wyn, Tecwyn Ifan, Rhian Price a Ffion Alun—diolch iddynt am fod mor gefnogol a pharod i'n helpu a hefyd i'n gwirfoddolwyr sydd yn trenfu gweithgareddau fel chreffft a choginio... roedd pawb wedi mwynhau gwenud Pop cakes yn ddiweddar—diolch i Nancy am ein dysgu. Yn anffodus mae Mrs Dorothy Jones a Mrs Jessie Parry wedi bod mewn ysbytai a nid yw Mrs Eluned Lloyd yn dda. Rydym yn mawr obeithio y byddent oll yn ol gyda ni yn fuan. Da croesawu Mrs Beti Watson Rhuthun atom ac ei gweld mor hapus yn ein plith a hefyd mae pawb yn llawenhau fod Mrs Annie Jones wedi dychwelyd yn ol atom. Dy-munwn yn dda i Mrs Eleri Tomos sydd wedi cael llawdriniaeth ac yn gwella adref—rydym yn ei cholli ar ddydd iau. Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Sue Wyn Jones - parhaodd i ddod atom wedi iddi symud i Gartref Gofal ac roedd yn mwynhau pob gweithgaredd ac yn ddiolchgar i Elinor Owen ac Olwen Davies am nol au danfon yn wythnosol. Bu farw yng Nghartref y Bwthyn Yr Wyddgrug a chydymdeimlwn gyda'r meibion a'r wyrion a gyda ei chwaer Marjorie.

**Llongyfarchiadau mawr** ! Yn ddiweddar mae rhai o'r Capel wedi cael llywddiant mawr. Roedd Elen Burgoyne yn siarad yn y Senedd o flaen 200 o fobl fel rhan o tim o Ysgol Trefnant yng nghystadleuaeth "Enterprise Troopers" - da iawn ti Elen. Mae Gareth Mawdsley wedi ei ddyrchafu i'r swydd uchel o Comander a'i briod Rachel fel "Asgell-Comander" gyda'r llynges brydeinig—llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt. Llongyfarchiadau cynnes i Helen Bebb ar ei swydd newydd fel athrawes Addysg Grefyddol yn Ysgol Tomos Jones Amlwch ac i Elen Mair Jones ar ei swydd yn Ysgol Croes Atti ac i Aled Pugh Jones ar ei lwyddiant ym Mhrifysgol Aberystwyth. Llongyfarchiadau i Lowri Davies a Roger Jones ar achlysur eu priodas—Lowri yn ferch i Mona Davies sydd yn wirfoddolwraig weithgar yng Ngofal Dydd,

**Grwp C3-** Ym mis Ebrill, chawsom ddysgu sut i wneud pop cakes a chael llawer o hwyl nid yn unig yn coginio ond hefyd blasu ein cynnyrch coginio! Llawer iawn o ddiolch i Nancy am ddangos ini y dull arbennig yma ac i Nancy a lola am y lluniaeth ardderchog. Ym mis Mai chawsom noson braf yn mwynhau y bwyd lyfli wedi eu baratoi gan Sioned a Mair a chyfle i drafod cyfarfodydd y dyfodol a'u cynnwys. Yn ddiweddar bu i Sioned goginio brecwast poeth i 250 o fobl yn Ysgol Cerrigydrudion a thrwy hyn godi llawer o arian at apel Nepal—roedd hyn yn ymdrech arbennig iawn gan Sioned. Ym mis Mehefin aeth y grwp i ymweld a thy hanesyddol Y Berain a wedyn i'r Hawk a Buckle am bryd o fwyd ac ym mis Gorffennaf bu'r grwp yn ymweld a gerddi hyfryd y Teulu Wykes yn Llandyrnog—llawer o ddiolch i Nancy am drefnu. Croeso i unrhyw un sydd wedi cael neu yn cael triniaeth am cancr ynghyd a'u teuluoedd i ymuno gyda ni yn y cyfarfodydd

**Cennin Pedr**—Efallai ichi sylwi fod bylbiau cenin pedr wedi'u plannu o amgylch y Capel. Bu rhaid tynnu y cenin pedr oedd ganddom oherwydd ail adeiladau wal y Capel i fodloni ein Cyngor Sir. Rydym yn edrych ymlaen at gwanwyn nesaf pan fydd sioe o genin pedr lliwgar yn cyfarch pawb wrth iddynt ymweld a'r Capel. Diolch i Derrick am blannu'r holl fylbiau.

**Cofio'r Mimosa**—Aeth nifer i Lerpwl i dadorchuddio y plac i gofio y Mimosa a da gweld Nia Ritchie ar y teledu yn son am y cyswllt teuluol rhyngddi a Catherine Roberts a hwyliodd ar y Mimosa ond a fu farw yn fuan ar ol cyrraedd Patagonia.

**Waen Chapel** is an open, welcoming Chapel and here for everyone. We offer support and help to all of any language or faith —please do let us know if you feel that the Chapel can help you in any way. We have a monthly English news letter on **our website** [www.capelywaen.btck.co.uk](http://www.capelywaen.btck.co.uk).

**Dyddiadau i'w Nodi – Dyma rhestr dyddiadau i'w nodi ac oedfaon gyda pregethwyr gwadd**

**2015**

Mehefin 21 Parch Tecwyn Ifan Llanddoged **2yp**

Mehefin 28 Oedfa Deulu'r Haf **10.30 yb**

Gorffennaf 19 Parch Iwan Llewelyn Jones Porthmadog **5yp**

Awst – Dim oedfa / Dim Gofal Dydd

Medi 6ed Miss Beti Griffiths Llanilar **2yp**

Medi 27 Parch Elfed ap Nefydd Roberts Abergele **2yp**

Hydref 11 Oedfa Deulu Diolchgarwch gyda Arfon Wyn **10.30yb**

Hydref 13 Oedfa Ddiolchgarwch **7yh**

Tachwedd 8fed Karen Owen Penygroes **10.30yb**

Tachwedd 22 Parch Harri Parri Caernarfon **2yp**

**Pob Dydd Iau—Gofal Dydd 10.30yb—3.30yp**



**Cydymdeimlo**—Cydymdeimlwn a theulu y diweddar Mrs Gwen Williams Rhuthun a bu farw yn ddiweddar. Chofiwn am Mrs Meirwen Denson a'r teulu Rhualt a hefyd Clwyd, Einir ac Ela Plas Mawr yn eu hiraeth am fam, nain a hen nain annwyl iawn.

**Cofio Mrs Mary “Polly” Davies**— Ganed ym Modffari ac yn ychydig fisoedd oed daeth I fyw I Pen y Waen ble roedd ei rhieni yn ffermio. Priododd Tomi a magodd pump o blant. Pobydd oedd Tomi, yn cerdded l'w waith bob nos er mwyn cychwyn pobi bara yn y Becws yn Llanellwy am 2 or gloch y bore—yr oriau'n hir a'r cyflog yn fach. Ymddiddorodd Mrs Davies yn yr ardd, mewn hanes lleol, a dorsbarthiadau paentio a chyraedd bobman ar ei beic. Enillodd wobrwon lu am ei gardd a cododd am 5 y bore I arddio. Symudodd I fyngalo yn Llanellwy a chael cwmni ddwy o'r Waen - y diweddar Beryl Jones a Dilys Foulkes. Ni fu erioed yn mynychu capel nag eglwys ond yn ei saithdegau penderfynodd cael ei bedyddio a'i derbyn yn aelod llawn o'r Eglwys yng Nghymru a bu yn ffyddlon iawn I Eglwys y Plwyf Llanellwy. Bu farw yn 99 oed ac mae ganddom atgofion annwyl am un a weithiodd yn galed yn ystod ei bywyd I ofalu am ei theulu ac am eraill.

**Cofio Mrs Glenys Jones Tan Llan Llanefydd**— Cantores, mam, nain, cyfnither a ffrind annwyl, gwirfoddoli gyda'r Samariaid, ymwelydd ysbytai—dyma rhai o ddisgrifiadau o Glenys ond rydym ni yn cofio amdani fel aelod o Grwp C3 a gwirfoddolydd ffyddlon Gofal Dydd. Pan bu farw ei gwr o salwch dementia a hithau wedi gofalu amdano adref, roedd eisiau helpu eraill a daeth atom yn wythnosol I helpu gyda Gofal Dydd. Gan ei bod yn dod ar y bws, roedd yn cael cyfle I sgwrsio ac I wrando ar brofiadau doniol a dwys a fu yn help mawr I lawer. Gweithiodd yn ddiwyd gyda phopeth yng Ngofal Dydd. Roedd ei llais godidog yn rhoi pleser I bawb—ni soniodd erioed ei bod gyda gradd ALCM—roedd yn rhy wylaidd I hynny. Pan bu ini agor ein siop bach, Glenys oedd yn gyfrifol amdano ac roedd wrth ei bodd. Ni fyddai unrhyw siop wedi cael gwell rheolwraig—pan oedd Glenys gyda ni roedd y derbyniadau mor uchel—gyda'r gwen a'l ffordd annwyl pwy all beidio prynnu ganddi? Parhaodd I helpu tra yn cael triniaeth anodd – dwedodd sawl gwaith fod ddydd lau yn ddiwrnod iddi anelu ato. Hoff emyn Glenys oedd “Arglwydd Iesu dysg I'm gerdded” a bu cais iddi ar raglen Dai Jones. Er ei gwaeledd, roedd wedi mwynhau gwrando ar y cais a chymanfa ganu Capel Tabernacl Treforys yn canu'r emyn. Fel yr emyn roedd Glenys yn gwneud “ gwaith y nef wrth olau ffydd”. Diolchwn I Dduw am cael ei nabod ac am ei chwmni annwyl—mae colled enfawr ond bu dylanwad Glenys yn parhau gyda ni.





